




1. Gwylan goesddu Gwylan y môr mawr yw hon sy'n nythu ar glogwyni ac yn gorffwys ar draethau a chreigiau gwastad; anaml y'i gwelir yn y mewndir. Mae'r big yn felynwyrdd a'r coesau a'r llygaid yn ddu. Y cefn

llwyd, main yn drawiadol. Mae'r aderyn ifanc yn fwy di-nod, yn felynllywd ei adenydd, yn llwyd ei war, yn frown ei goesau ac yn dywyll ei bîg. Yn y gaeaf, bydd gwar lwyd a chlust ddu gan yr aderyn llawn dwf. Yr aderyn ifanc yn hynod am fod ganddo resen igam-ogam ddu ar gefn golau, a cholera ddu a phîg ddu.



2. Gwylan y penwaig Un o'r gwylanod mwyaf ei maint sydd weithiau cyhyd â 66 cm, hefyd yn un rheibus ac ysglyfaethus, gan wledda ar bob math o bethau, gan gynnwys cywion gwylanod eraill. Ei sŵn yn

debyg i sgrechian chwerthin. Gall hefyd wneud sŵn neu gri perygl a thro arall sŵn isel tebyg i gyfarth ci pan mae mewn argyfwng. Mae'r cywion yn gwneud sŵn unigryw sy'n cael ei ailadrodd: tebyg i 'pîp', gan fflicio eu pennau yr un pryd. Yn rhyfedd iawn, mae oedolion y gwylanod hefyd yn gwneud hyn pan cânt eu bwydo gan bobl.




3. Pâl Mae'n aderyn môr adnabyddus, oherwydd y pig mawr lliwgar. Yn byw ar bysgod bach, ac yn eu dal trwy blymio i'r dŵr a'u hymlid trwy nofio dan y dŵr. Yn y gaeaf treulia ei amser ar y môr, ond dychwela i nythu. Defnyddir twll yn y ddaear ar gyfer nythu, e.e. hen dwll cwningen. Fel rheol maent yn nythu yn

fioedd o barau. Un cyw sy'n cael ei fagu ar y tro. Gellir gweld y rhieni yn hedfan i mewn yn cario pysgod i'r cyw. Diolch i gymal arbennig yn ei big gallant gario nifer o bysgod bach wedi eu trefnu'n daclus mewn rhes yn y pig.

4. Mulfran Mae'n nythu ger glan y môr fel rheol, ar glogwyni neu mewn coed, ond mae nifer gynyddol yn nythu ymhell o'r môr e.e. Craig y Deryn. Adeiledir y nyth o frigau a gwymon fel rheol, ac mae'n dodwy 3 neu 4 wy. Pysgod yw ei brif fwyd, ac mae'n eu dal drwy nofio o dan y dŵr, un ai ar y môr neu ar lynnoedd ac afonydd. Gall blymio'n ddwfn i'r dŵr a threulio hyd at 30 eiliad dan yr wyneb.



5. Gwylog Aderyn y môr sy'n debyg i bengwin gyda chorff hir, coesau byr a phîg fain. Plymia o wyneb y dŵr. Mae'n nythu ar glogwyni serth. Cefn brown tywyll sydd gan ffurf y de a chefn du gan ffurf y gogledd tra bo'r bol yn wyn, ond yn yr haf yn dywyll. Yn y gaeaf bydd ei chap yn dywyll a



stripen y tu ôl i'w llygad ar ei boch wen. Cynffon fer sgwâr. Bydd nifer fawr yn nythu ar glogwyni morol Cymru gan gynnwys Pen y Gogarth. Yn bwydo ar bysgod.

6. Pioden y môr Aderyn cyffredin ger glan y môr, hawdd ei adnabod gyda chefn du a bol gwyn, pîg mawr coch a choesau coch. Yr adar ieuanc yn fwy brown o ran lliw. Eu bwyd yw cregyn a phryfed ar lan y môr, ac mae'n arbenigwr ar agor cregyn. Mae rhai adar yn arbenigo mewn rhoi y pîg i mewn rhwng dau hanner y gragen i'w hagog, tra bo eraill yn torri twll trwy'r gragen, ac mae siâp y pîg yn wahanol yn ôl y dull mae'r aderyn hwnnw yn ei ddefnyddio. Yn nythu ar lan y môr fel rheol, ond weithiau ar lannau llynnoedd.



Pryd?

Ble?

Pwynt

1 _____

35

2 _____

10

3 _____

40

Pryd?

Ble?

Pwynt

4 _____

20

5 _____

25

6 _____

20